

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
3 Chwefror 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Jiwibili Llangeitho
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
3 February 2025 at 8.00 pm at Jiwibili Hall, Llangeitho

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, ac estynwyd llongyfarchiadau i Cyng Emyr Jones a'r teulu ar enedigaeth eu hwyres gyntaf.

The Chair welcomed everyone to the meeting and congratulations were extended to Cllr Emyr Jones and family on the birth of their first granddaughter.

Presennol/Present

Cyng Beryl Evans (Cadair/Chair), Gwilym Evans, Emyr Jones, Gwenfair Owen, Ieuan Gwynne, Gerwyn Ebenezer a Cyng Rhian Turner.

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Sarah Evans, Daniel Thomas, Dafydd Morse, Myrddin James, Cyng Rhodri Evans & PCSO John Evans.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Derbyniwyd a chylchredwyd adroddiad yr Heddlu. Soniwyd i bawb fod yn wylidwrs iawn o'u hamgylchoedd yn dilyn y lladradau diweddar yn ardal Tregaron.

A Police report was received and circulated. It was noted that people should be vigilant after a spate of recent robberies in the Tregaron area.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones.

The minutes of the previous meeting were passed correct – proposed by Cllr Gwilym Evans and seconded by Cllr Emyr Jones.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Angen presenoldeb y sweeper yn y dair ward, yn enwedig lawr o Benuwch am Langeitho, heibio, Llidiartmaengwyn, a heibio Maesrhug am Tyncelyn.
Sweeper needed in the three wards, especially from Penuwch to Llangeitho, via Llidiartmaengwyn, and from Maesrhug to Tyncelyn.
- Soniwyd nad yw'r gyli/drain wedi'u glanhau gyferbyn a Penlan, Penuwch, SY25 6RA.
It was noted that the drain/gully opposite Penlan, Penuwch, SY25 6RA had not been cleared.
- Tyllau yn y ffordd lawr o Caerllugest and Ffynnongeitho.
Potholes on the road from Caerllugest to Ffynnongeitho.
- Transh mawr wrth ochr y ffordd o Cilcert lawr am Llangeitho.
Deep trench on the road from Cilcert toward Llangeitho.
- Soniwyd bod y lori grit wedi llithro oddi ar y fordd ar bwys Plasnewydd, Penuwch.
It was noted that a grit lorry had slid off the road by Plasnewydd, Penuwch.
- Angen paentio'r llinellau gwyn lawr i'r groesffordd ar bwys Glanwern ynghyd a'r llinellau gwyn sydd yn dweud ARAF.
White lines need to be painted down to the crossroads near Glanwern as well as the word ARAF.
- Dwr dros y ffordd wrth mynedfa'r afon ar bwys Aeron Villa, Rhydypany.
Water across the road by the opening to the river by Aeron Villa, Rhydypany.
- Soniwyd bod Mr Brian Thomas â'r Cyngorydd Sir yn mynd oddi amgylch y gymuned ar 04.02.2025 o 10 y bore ymlaen, i ddangos beth oedd y nifer o bwyntiau o fewn y gymuned oeddi angen sylw. Cyngorydd Sir i gysylltu a Chynghorwyr Penuwch os bod angen cyngor neu am fwy o eglurhad i rhai o'r pethau oedd angen sylw ym Mhenuwch.
It was noted that Mr Brian Thomas and the County Councillor would be going around the community on 04.02.2025 from 10am onwards, to show the numerous matters that need attention within the community. The County Councillor to contact Penuwch Councillors if further information was required regarding matters in Penuwch.
- Soniwyd a thrafodwyd sefyllfa cau'r Capel â'r Festri ym Mhenuwch. Grŵp o aelodau'r capel wedi cwrdd a'r Henaduriaeth i drafod y posibilrwydd o gadw'r Festri er ddefnydd y cyhoedd. Nodwyd sut nad oedd prif fynedfa'r Festri'n cwrdd â'r gofynion anabledd. Disgwylir ymateb o Gaerdydd.

It was noted and a discussion took place regarding the closure to Penuwch Chapel and Vestry. A group of chapel members had met with the Presbytery to discuss the possibility of keeping the Vestry open for community use. It was noted that the Vestry entrance was not suitable for people with disabilities. A response from Cardiff is expected.

- Gofynwyd i'r clerc gysylltu a Mr Gareth Evans o Dregaron i weld a oes diddordeb ganddo fel cwmni symud, i gysylltu a prechennog Derlwyn Fach ar gyfer trefnu symud yr eitemau trydanol sydd ar ddiwedd eu lôn.
The Clerk was asked to contact Mr Gareth Evans, Tregaron to see if as a removal company he was interested in contacting the owner of Derlwyn Fach to arrange removal of electrical items left at the bottom of the lane.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Ionawr £129.27 – Clerk salary for January
- Gareth Jones Archwiliwr Mewnol / Internal Auditor £30
- Archwilio Cymru 2022-23 - Audit Wales - £324.00
- Balans y banc - £11,287.96 – Bank Balance
- Soniwyd bod y Clerc yng nghanol trafodaethau efo'r Archwiliwyr Allanol ynglŷn â'r archwiliad llawn sydd yn mynd yn eu flaen am 2023-24, cyfan wedi'u hanfon atynt a un set o gwestiynnau wedi'u hateb.
The Clerk noted that she was in the middle of discussions with the External Auditor regarding the 2023-24 full audit which was taking place, everything had been forwarded to them and one set of questions to be answered.

Cytunwyd i'w talu ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner
Payments to be made – proposed by Cllr Gwilym Evans and seconded by Cllr Rhian Turner

Gohebiaeth/Correspondence

- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Ysgrifenyddes Cylch Meithrin Llangeitho yn ymddiheurio bod y siec olaf o gymorth ariannol a dderbyniwyd oddi wrth y Cyngor wedi mynd ar goll a gofynnir yn garedig am siec newydd. Cytunwyd i'r cais a rhoddwyd siec o £100 trwy law'r Cadeirydd.
email received from the Secretary of Cylch Meithin Llangeitho apologising that the last cheque for financial assistance received from the Council had been misplaced and kindly asking for a replacement cheque. It was agreed to send a replacement cheque of £100 through the Chairman.
- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Aelodau grŵp YesCymru Llambled a Dyffryn Aeron yn gofyn am gefnogaeth i'r ymgyrch i drosglwyddo rheolaeth Stâd y Goron i Gymru – cytunwyd i gefnogi.
email received from the members of Yes Cymru Lampeter and Dyffryn Aeron members asking to support the campaign to transfer control of the Crown Estate to Wales – it was agreed to support.
- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Rod King, Sylfaenydd a Chadeirydd o '20's Plenty for Us CIC' ar sut i herio eich awdurdod priffyrdd gan osod rhai o'r ffyrdd nôl i 30mya – Dim gweithrediad.
email received from Rod King, Founder and Chair of 20's Plenty for Us CIC on how to challenge your highway authority setting some of the roads back to 30mph – No Action

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Dim i'w gofnodi / Nothing to report

Toiledau Cymunedol yn Llangeitho Public Conveniences in Llangeitho

Dim i'w gofnodi / Nothing to report

Yr Hen gysgodfan bws, Tro Pair, Llangeitho / The old bus shelter in Llangeitho

Trafodwyd y rhestr o bwyntiau oedd eisioes wedi'u gylchredeg i'r Cynghorwyr a chytunwyd i newid un geiriad a'i hanfon ymlaen i Un Llais Cymru am ei barn proffesiynol a'i cymorth i ddodi mewn dogfen swyddogol rhwng y ddau barti.

A number of points already circulated to the Councillors were discussed and it was agreed to change one wording and forward it to One Voice Wales for their professional advice and assistance in producing an official document between the two parties.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w gofnodi / Nothing to report

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Cytunwyd i anfon ymlaen Cofrestr Asedau Sefydlog i'r Archwiliwyr Allanol a oedd yn cynnwys Meinciau (£8,727.24) a Cysgodfannau Bws x 4 (£22,798.70)

- *It was agreed to forward the Fixed Asset Register to the External Auditors which included Benches (£8,727.24) & Bus Shelters x 4 (£22,798.70)*
- Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha mor ddefnyddiol fyddai cael rhwystrau damweiniau ar ochr y ffordd i lawr o Bencwm i Rhydypandy.
Discussions took place about installing accident barriers along the roadside down from Pencwm to Rhydypandy
- Soniwyd bod dŵr dros y ffordd oedd wedi rhewi ar gyffordd Pencwm lawr am Llangeitho.
It was noted that water had frozen across the road on the junction at Pencwm down towards Llangeitho.
- Soniwyd eto am y nifer o dyllau yn y ffordd rhwng Gaerlwyd a Chapel Llwynpiod, ynghyd â'r ffordd lan o Pomprengarreg lan am Bwlchffin.
It was recorded again that there were numerous potholes between Gaerlwyd and Llwynpiod Chapel, as well as the road from Pomprengarreg towards Bwlchffin.
- Draen wedi'u blocio ar bwys fynwent Capel Llwynpiod.
Blocked drain near the cemetery at Llwynpiod Chapel.
- Soniwyd am y nifer o ddamweiniau a fu ar y lôn groes o Tyncelyn i Stags Head yn ystod y tywydd garw ddiwetha.
It was reported that accidents have occurred on the road between Tyncelyn and Stags Head during the recent inclement weather.
- Cyng Gwenfair Owen yn ymddeieheurio o'r cyfarfod nesaf.
Cllr Gwenfair Owen apologised for her absence at the next meeting.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 3ydd o Fawrth 2025 yn Festri Capel Llangeitho am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at Llangeitho Chapel Vestry, on Monday 3rd March 2025 at 8.00 o'clock.